Mudiad Addysg Gristnogol Cymru
Christian Education Movement Wales

Tymor yr Haf 2002

Pris £1.00

Syniadau A.G.

Defnyddio Arteffactau Crefyddol yn y Dosbarth



Bu disgyblion Blwyddyn 3 yn astudio sgrôl y Torah a'r Yad. Fe'u hanogwyd i edrych yn ofalus ar y symbolau ar orchudd (mantell) y sgrôl. Gwnaed sgroliau gan rai o'r disgyblion, hefyd ysgrifennu a darlunio storiau a phenillion. Gwnaed mentyll hefyd ac fe'u harddangoswyd yn y dosbarth.



Bydd y rhifyn yma o 'Syniadau Addysg Grefyddol' yn edrych sut y defnyddiwyd arteffactau i ddysgu am Iddewiaeth, Islam a Christnogaeth yn Ysgol Gynradd Dunvant, Abertawe.

Mae defnyddio arteffactau crefyddol yn ffordd o fywiogi y broses o ddysgu, a gall ddyfnhau dealltwriaeth o gymuned grefyddol, ei chredoau, dysgeidiaeth ac ymarferion.Dylid trin arteffactau gyda pharch a gofal, a dylid annog plant i ddefnyddio eu synhwyrau pan yn astudio arteffactau.

Ceir yma syniadau sut i wneud bocsys o arteffactau ar gyfer y 3 crefydd. Fe gymer amser i gasglu banc o arteffactau - foddbynnag mae nifer o safleoedd ar y We sydd yn rhoi gwybodaeth am gredoau ac arferion crefyddol ar gyfer y rhai nad ydynt yn arbenigwyr, a cheir nifer o luniau da, lliwgar o arteffactau; gellir lamineiddio yr rhain a'u defnyddio i ddysgu. Mae cyfeiriadau y We ar ddiwedd y rhifyn yma.

Arddangos Arteffactau



Paratowyd y bwrdd Shabbat yma gan grwp o ddisgyblion blwyddyn 5 - 'r oeddynt yn dysgu am Iddewiaeth.
'Roedd arddangosfa o arteffactau yn delio a chrefydd arbennig neu a thema arbennig yn llyfrgell yr ysgol - felly gallai'r athrawon a'r disgyblion fynd yno i edrych ac i gyffwrdd yr arteffactau. Annogir y plant i feddwl am gwestiynnau i'w gofyn am yr arteffactau ac arddangosir y cwestiynnau hefyd.

Newidir yr arddangosfa bob hanner tymor.



Astudio a gwneud y Meswsa - Bl 5

Myfyrdod

Gellir defnyddio arteffactau a cherddoriaeth fel canolbwynt i feddwl a myfyrdod, yn yr ystafell ddosbarth neu yn y gwasanaeth boreol. Gellir cael bwrdd yn arddangos cwestiynnau a darluniau fel ffocws yn y dosbarth.

Goleuni
Gellir defnyddio arddangosfa syml o ganhwyllau fel adnodd wrth astudio Crisnogaeth neu Wyliau y Goleuni. Gallai'r arddangosfa gynnwys cannwyll y Pasg, cannwyll Fedydd, Cylch Adfent, Diva, Menora, a Chanukah. Rhowch olau ar y gannwyll ac eglurwch i'r plant fod llawer o bobl yn credu fod y mwg o'r gannwyll yn cario eu gweddiau at Dduw. Pa neges hoffent ei anfon ? Dysgwch am y goleuni tragwyddol.

Astudio y Meswsa
Ystyr 'Shaddai' yw 'hollalluog'
Pam fod y gair yma yn cael ei Ysgrifennu ar gefn y Meswsa ?

Mae'r gair Meswsa yn cynnwys Sgrôl gyda geiriau o'r Torah arno. Gwnewch eich Meswsa a'ch sgrôl eich hun. Pa eiriau fyddwch yn eu defnyddio a pham ?

Archwilio ac Ymchwilio i Arteffactau

Archwilio Arteffactau

Archwiliwch yr arteffact yn ofalus:

1.Disgrifiwch yr arteffact. Pa siap yw? Lliw? Graen ? Pa ddefnydd yw? Pa faint?
Ydi o yn drwm neu yn ysgafn?

2. I beth mae'n cael ei ddefnyddio?

3. Pa grefydd mae'n perthyn iddi? Pam?

4. Tynnwch lun yr arteffact a'i liwio.

Mat Gweddi y Mwslim

Pa ddefnydd yw'r mat ?
Pa addurniadau welwch chi ?
Pa addurniadau na welwch chi byth mohonyn nhw ar fat gweddi a pham ?
Pam fod cwmpawd ar y mat gweddi ?
Beth yw enw y lle y mae'r Mwslemiaid yn ei wynebu wrth weddio ?
Dyluniwch a gwnewch eich mat gweddi eich hun.

Stand y Qur'an

I ba beth y defnyddir y stand?
Ydi'r cynllun yn bwysig?
Sut mae'r stand wedi ei addurno?
Pa fath o batrymau sydd yn y cerfiadau?
Tynnwch lun a dyluniwch stand.
Dychmygwch eich bod chi yn stand i'r Qur'an. Disgrifiwch sut rydych yn teimlo pan fyddwch yn cael eich defnyddio. Ble rydych chi? Pwy sydd yn cyffwrdd a chi a pham? Beth welwch chi, beth aroglwch chi, beth glywch chi? pa fath o raen ydych yn ei deimlo?

Y Shofar (Corn Hwrdd)

Pwy sydd yn defnyddio y corn ?
Pryd a sut mae'n cael ei ddefnyddio ?
O ba ddefnydd y gwnaed y corn ?
Ceisiwch ddisgrifio siap a graen y corn.
Chwiliwch am wybodaeth am wyliau Rosh Hashanah a Yom Kippur (Dydd y Cymod).
Sut maent yn dathlu yr rhain ?







• Syniadau ar gyfer bocsys arteffactau... •

Cristnogaeth

Gwahanol fathau o groesau
Gwahanol fathau o ganhwyllau
Beibl
Stola
Modrwy Adfent
Symbol Pysgodyn
cwpan
cerflun o Mair
Aur
Thus
myrr
Llaswyr delweddau o'r Iesu

Iddewiaeth

Sgrôl Torah
Mantell
Yad
canhwyllau Menorah Hannukah
Siol Weddi (tallit)
Meswsa
Plat y Pesach
plat y Seder
cwpan Kiddush
Tallith (siol)
Kippa (cap)
tephilin
Bara'r Challah

Islam

Qur'an
Stand i'r Qur'an
mat gweddi
Cwmpawd
mwclis gweddi
Topi (het weddio)
Celf Islamaidd
crogluniau
Ihram (gwisg wen pererindod)
garlant priodas

Safleoedd y We fydd o ddefnydd...

Mudiad Addysg Gristnogol - www.cem.org.uk
RE Exchange Service - www.re-xs.ucsm.ac.uk
The RE Site - www.theresite.org.uk
Strathclyde University - www.strath.ac.uk
BBC Education - www.bbc.co.uk/education

ADNODDAU MAGC

Gwybodaeth a syniadau pellach ar gael ym mhecynnau adnoddau MAGC.
Mae disgowntiau ar gael i ysgolion yn yr Awdurdodau sy'n cyfrannu ac i fyfyrwyr.
GELLIR LLUNGOPIO Y DEUNYDD YMA AR GYFER EI DDEFNYDDIO YN EICH YSGOL CHI YN UNIG.
Catalogau a Phecynnau, ynghyd â chopiau ychwanegol o Syniadau A.G ar gael oddiwrth:

Sali Roberts,
Patshyn
Rhiwgwreiddyn
Ceinws
Machynlleth
Powys SY20 9EX
(Ffôn/Ffacs: 01654 761697)

© MAGC 2002